



11.0 Ymgysylltu a Dylanwadu

Lansio Deiseb

Trosolwg

1. Y Pwyllgor Deisebau
2. Beth hoffech chi ei newid?
3. Ennyn cefnogaeth
4. Cyflwyno i'r Pwyllgor
5. Eifen ymgyrchu ddefnyddiol

Mae cyflwyno deisebau i Senedd Cymru yn ffordd gymharol hawdd o sicrhau bod y mater sy'n bwysig i chi yn cael ei drafod gan wleidyddion ym Mae Caerdydd, ac yn cael ei osod yn gadarn ar yr agenda wleidyddol. Gall deisebau nid yn unig godi proffil eich mater dewisol chi ymysg penderfynwyr a'r cyfryngau, ond mae'n bosibl iddynt ddod yn gyfraith yn y pen draw.

Y Pwyllgor Deisebau

Gwaith y Pwyllgor Deisebau yw ystyried pob deiseb dderbyniol a gyflwynir gan y cyhoedd, gan alluogi'r cyhoedd i ddylanwadu'n uniongyrchol ar waith y Senedd.

Dim ond dau lofnod sydd ei angen er mwyn i ddeiseb gael ei gwirio – os yw'n ddilys ac o fewn pwerau'r Senedd, yna caiff ei chyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ar wefan deisebau'r Senedd.



Llun: Menyw yn llofnodi deiseb

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn adolygu pob deiseb sy'n casglu mwy na 50 o lofnodion er mwyn pennu beth allan nhw ei wneud i helpu i symud y ddeiseb ymlaen. Gallai hyn gynnwys ysgrifennu at weinidogion Llywodraeth Cymru, cyfeirio pwnc deiseb i'w drafod yn y Senedd, ei gyfeirio at bwyllgor pwnc i wneud gwaith craffu pellach arno, neu ddewis ysgrifennu adroddiad Pwyllgor Deisebau ar y pwnc.



Enghraifft

Cytunodd y Pwyllgor ar adroddiad o'r fath yn dilyn deiseb ynglŷn â theledu cylch cyfun mewn lladd-dai, ac argymhellwyd y dylai Llywodraeth Cymru ei gwneud yn orfodol i systemau monitro teledu cylch cyfun gael eu gosod a'u cynnal a chadw ym mhob lladd-dy yng Nghymru.

Nid oes gan y Pwyllgor y grym i newid polisi na deddfwriaeth y Llywodraeth – yn hytrach, mae'n penderfynu a yw'r achos rydych chi'n ei gyflwyno yn deilwng o gael ei ymchwilio ymhellach a gall wneud argymhellion ar gyfer newidiadau polisi yn y dyfodol.

Ysgrifennu at Weinidog yw un o'r camau mwyaf cyffredin y gall y Pwyllgor Deisebau ei gymryd mewn perthynas â deiseb. Bydd angen i weinidogion ddarparu ymateb, a gall y Pwyllgor fynd yn ôl at y Gweinidog os nad ydynt yn fodlon â'r ymateb neu os oes angen eglurder pellach arnynt.

Gall y Pwyllgor hefyd ysgrifennu at y deisebydd gwreiddiol i ofyn am ei farn ar ymateb y Gweinidog, neu hyd yn oed ei wahodd i gyflwyno'i achos gerbron y Pwyllgor. Mae'r Pwyllgor Deisebau hefyd wedi defnyddio'i gyfrif Trydar er mwyn rhoi cyhoeddusrwydd i faterion. Os caiff deiseb fwy na 5,000 o lofnodion, bydd y Pwyllgor Deisebau yn ystyried gofyn am drafodaeth yn siambr y Senedd. Wrth ystyried a ddylid trafod hwn yn y cyfarfod llawn, rhaid ystyried pethau megis brys y sefyllfa, pwnc y ddeiseb a chyfran y llofnodion a ddaw o Gymru.



Enghraifft

Gwnaeth deiseb yn galw ar Lywodraeth Cymru i wahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcau yng Nghymru, a gyflwynwyd gan yr RSPCA, arwain y Dirprwy Weinidog Ffermio a Bwyd i gyhoeddi adolygiad annibynnol o'r dystiolaeth ar les anifeiliaid mewn syrcau teithiol a rhai nad ydynt yn teithio. Roedd yr adolygiad o blaid gwaharddiad, ac fe ymgynghorodd Llywodraeth Cymru ar hyn yn 2017.

Ystyriodd y Pwyllgor Deisebau ddeiseb arall ar y mater hwn ar 23 Ionawr 2018. Derbyniodd y ddeiseb hon dros 6,000 o lofnodion a threfnwyd trafodaeth mewn cyfarfod llawn. Cyhoeddodd y Gweinidog cyfrifol ei chynlluniau i gyflwyno deddfwriaeth i wahardd y defnydd o anifeiliaid gwyllt mewn syrcau, a chyflwynwyd Bil Anifeiliaid Gwyllt mewn Syrcau Teithiol (Cymru) gyda chefnogaeth Llywodraeth Cymru yn y Senedd. Felly, os caiff deisebau eu defnyddio'n gywir a chyda cefnogaeth y cyhoedd, gallant ddechrau'r broses o ddeddfu.

Beth hoffech chi ei newid?

Mae'n bwysig eich bod yn drafftio'r testun gyda nod penodol, cyraeddadwy – un cam gweithredu glir yr hoffech i Lywodraeth Cymru neu'r Senedd ei gymryd. Nid oes angen iddo fod yn draethawd – offerynnau syml yw deisebau a chyn belled â bod yr hyn rydych chi'n gofyn amdano'n glir, heb unrhyw amwysedd o ran yr hyn a gynigir, bydd yn ddigonol i'r diben.

Un o'r rhesymau mwyaf cyffredin pam fod deisebau'n methu cyn cychwyn yw oherwydd eu bod y tu allan i gylch gwaith Llywodraeth Cymru. Ni allwch fynnu, **er enghraifft, bod Llywodraeth Cymru'n gweithredu ar fater nad yw wedi'i ddatganoli, megis cyfiawnder troseddol**. Ystyriwch pa faterion sydd wedi'u datganoli ac o fewn pwerau Llywodraeth Cymru a'r Senedd i'w newid.

Peidiwch â defnyddio'r broses ddeisebu hon ar gyfer galwad a fydd yn gofyn i Lywodraeth San Steffan neu gorff allanol weithredu.

Dylech hefyd bennu a yw pwnc eich deiseb yn galw am yr un camau gweithredu â deiseb sydd eisoes ar agor neu wedi'i ystyried gan y Pwyllgor yn ystod y flwyddyn ddiwethaf, gan y bydd hyn yn golygu y bydd eich deiseb yn cael ei gwrthod. Nid yw'r Pwyllgor yn derbyn deisebau sy'n deillio o wefannau deisebu eraill chwaith.

Fe'ch cynghorir i gysylltu â thîm clericio'r Pwyllgor Deisebau pan fyddwch chi'n drafftio geiriad eich deiseb i sicrhau eich bod yn dilyn y canllawiau a osodwyd. Mae'r rhain yn cynnwys sicrhau nad yw'n cynnwys iaith sy'n peri tramgwydd, datganiadau ffug neu rai a allai fod yn ddifriol, nac yn cyfeirio at achos sy'n weithredol yn y llysoedd.

Yn ogystal, ni ddylai geisio achosi trallod na cholled bersonol nac enwi swyddogion unigol cyrff cyhoeddus. Ni ddylai gael ei ystyried chwaith fel modd o hyrwyddo cynnyrch neu wasanaeth penodol, na chynnwys materion na fyddai'n addas ar gyfer deiseb megis galw ar unigolyn i gollu'i swydd, ymddiswyddo neu wynebu pleidlais o ddiffyg hyder.

Os ydych yn dymuno casglu llofnodion ar bapur, yna dylech gysylltu â thîm clericio'r Pwyllgor ymlaen llaw i gael cyngor ar y ffordd orau o wneud hynny er mwyn cydymffurfio â'r canllawiau a osodwyd gan y Senedd. Byddan nhw ar gael i'ch cyngori ar sut i osod eich deiseb, a pha wybodaeth sydd ei hangen arnoch gan y rheini sy'n dymuno llofnodi a chefnogi'ch deiseb.

Ennyn Cefnogaeth

Unwaith y byddwch wedi lansio'ch deiseb yn llwyddiannus, naill ai drwy ddefnyddio'r system ddeisebu ar-lein, ar bapur, neu gyfuniad o'r ddau, bydd angen i chi ystyried y ffordd orau o gael pobl i gefnogi'r hyn rydych yn gofyn amdano.

Byddwch chi'n gallu rhannu tudalen gwe eich deiseb gyda'ch cefnogwyr a'ch rhwydweithiau a defnyddio'ch sianeli cyfryngol i hysbysebu'r cyfle i gefnogi'ch galwad am newid.

Gall unrhyw unigolyn neu fudiad â chyfeiriad yng Nghymru greu deiseb, a dim ond unwaith y gall pobl lofnodi'r ddeiseb. Gall pobl o'r tu allan i Gymru lofnodi'r ddeiseb, ond os bydd eich deiseb yn denu dros 5,000 o lofnodion bydd y Pwyllgor yn ystyried gofyn am drafodaeth yn y Senedd, ac un o'u hystyriaethau wrth benderfynu ar eu hymateb i'r ddeiseb fydd ystyried cyfran y llofnodion a ddaeth o Gymru. Os bydd pobl yn lofnodi ar-lein, byddant yn derbyn e-bost i gadarnhau eu llofnod.

Cyflwyno i'r Pwyllgor

Mae nifer o fudiadau'n defnyddio'r cyfle a ddarparwyd o gyflwyno'u deiseb, neu gerdyn addewid neu debyg os yw'r ddeiseb yn ddeiseb ar-lein, i ddeisebu aelodau o'r Pwyllgor fel bachyn i geisio denu mwy o sylw yn y wasg a'r cyfryngau.

Bydd y tîm clericio yn gallu darparu cymorth pellach i chi, ond mae deisebau'n cael eu trosglwyddo yn y Senedd ar ddydd Mawrth a dydd Mercher. Mae'r Pwyllgor hefyd yn cynnig cyfle anffurfiol i ddeisebwyr drafod y mater a godwyd yn y ddeiseb a darparu gwybodaeth gefndirol yn ystod yr amser hwn, sy'n drafodaeth werthfawr er mwyn ceisio perswadio aelodau'r Pwyllgor ynglŷn â dilysrwydd y materion a godwyd gennych, pwysigrwydd y pwnc a'r angen am weithredu.

Mae'r Pwyllgor Deisebau yn cwrdd yn rheolaidd. Cyn COVID-19 cynhaliwyd y sesiynau hyn yn y Senedd ym Mae Caerdydd, ac yn ystod y cyfyngiadau symud cawsant eu cynnal ar-lein drwy Zoom.

Mae nifer helaeth o ddeisebau ar agor ar yr un pryd, a gallai gymryd rhai wythnosau o gyflwyno'ch deiseb hyd nes y caiff ei thrafod gan y Pwyllgor. Fel rhan o'u hystyriaethau o rinweddau eich deiseb gall y Pwyllgor ymgysylltu â chi ymhellach drwy ysgrifennu atoch am ragor o wybodaeth neu'ch gwahodd i siarad yn bersonol â'r Pwyllgor.



Dolen Allanol

Darlledir pob cyfarfod pwyllgor yn fyw, a gellir eu gwyllo ar-lein:
senedd.tv

Elfen Ymgyrchu Ddefnyddiol

Nid yw newid yn digwydd dros nos. Creu a chyflwyno deiseb yw'r cam cyntaf yn yr ymgyrch am newid. Nid oes gan y Pwyllgor Deisebau'r grym na'r awdurdod i wneud newidiadau polisi na chyflwyno deddfwriaeth, ond gallant argymhell camau pellach yn y meysydd a godwyd gennych.

Gall cyflwyno deiseb ysgogi pwyllgor pwnc neu Aelodau unigol o'r Senedd i weithredu ymhellach eu hunain yn y maes polisi a godwyd drwy ofyn cwestiynau, arwain ymgyrch neu drwy dynnu sylw'r cyfryngau at y materion a godwyd gennych.

O'i defnyddio'n effeithiol fel rhan o ymgyrch eang, gall deiseb fod yn ffordd werthfawr o amlygu'r angen am weithredu a gall arwain at newid polisi yng Nghymru.



Cefnogi Trydydd
Sector **Cymru**

Third Sector
Support **Wales**

Rhwydwaith o fudiadau cymorth i'r trydydd sector cyfan yng Nghymru yw Cefnogi Trydydd Sector Cymru.

Ceir ynddo'r 19 corff cymorth lleol a rhanbarthol ledled Cymru, y Cyngorau Gwirfoddol Sirol, a'r corff cymorth cenedlaethol, Cyngor Gweithredu Gwirfoddol Cymru (CGGC).

Am ragor o wybodaeth cysylltwch â <https://thirdsectorsupport.wales/cy/cysylltu/>

Ymwadiad

Mae'r wybodaeth a ddarperir yn y daflen hon ar gyfer cyfarwyddyd yn unig. Nid yw'n amnewid am gyngor proffesiynol ac ni allwn dderbyn unrhyw gyfrifoldeb am golled o ganlyniad i unrhyw un sy'n gweithredu neu'n gwrthod gweithredu arno.